
Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio

2022-2024

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales




Dyddiad: 31 Mawrth 2022

# Cynnwys


1 Termau a Diffiniadau Allweddol 3
2 Cyflwyniad 4
3 Ein Taith tuag at Sero Net 11
4 Ffrwd Weithgaredd 1 - Rheoli Carbon 16
5 Weithgaredd 2 - Adeiladau, Cynllunio'r Ystâd a Defnydd Tir 20
6 Ffrwd Weithgaredd 3 - Trafnidiaeth a Theithio 27
7 Weithgaredd 4 - Caffael 30
8 Weithgaredd 5 - Dulliau o Ddarparu Gofal Iechyd a Gwasanaethau 33
9 Cyfrifoldebau a Llywodraethu 37
10 Ariannu 38
11 Risgiau 39
12 Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol – Camau Gweithredu Hirdymor 40
13 Atodiad 1 - Cyfeiriadau 43

# 1 Termau a Diffiniadau Allweddol

Defnyddir y termau allweddol canlynol yn y Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio hwn. Er gwybodaeth, darperir diffiniad o bob term yn y tabl canlynol.

| Term Allweddol/Acronym | Diffiniad |
|---|---|
| **Cyfwerth â Charbon Deuocsid ($CO_2e$)** | Uned safonol i fesur Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG) a ddefnyddir i gymharu effeithiau cymharol gwahanol NTG yn seiliedig ar eu potensial o ran cynhesu byd-eang. |
| **Datgarboneiddio** | Y broses o leihau yn gyntaf ac yna gael gwared ar allyriadau NTG a gaiff eu rhyddhau i'r atmosffer o'n gweithrediadau. |
| **Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Allyriadau NTG)** | Nwyon Tŷ Gwydr a ddiffinnir fel nwyon sy'n gallu amsugno ymbelydredd isgoch (gwres) o'r haul, gan gyfrannu at effaith nwyon tŷ gwydr y Ddaear. |
| **Carbon Sero Net** | Cydbwysedd rhwng allyriadau NTG a ollyngir i'r atmosffer a'r allyriadau NTG a gaiff eu dal drwy echdyniadau a/neu niwtraleiddio carbon. |
| **Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru** | Cynllun cyflenwi strategol a ddatblygwyd gan GIG Cymru yn cwmpasu 2021-2030, sy'n nodi mentrau a thargedau allweddol i sicrhau gostyngiad uchelgeisiol ond cyraeddadwy mewn allyriadau carbon. |
| **Cyfanswm Allyriadau NTG (y flwyddyn) (tunnell $CO_2e$)** | Cyfanswm allyriadau NTG blynyddol sefydliad/endid cyn i addasiadau gael eu cymhwyso ar gyfer atafaelu neu ddileu nwyon tŷ gwydr, wedi'u mesur mewn tunelli $CO_2e$. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | Deddf Llywodraeth Cymru sy'n nodi saith nod llesiant sydd wedi'u cynllunio i **wella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru.** |
| **Allyriadau NTG O'r Ffynhonnell i'r Tanc (tunnell $CO_2e$)** | Allyriadau o brosesu a mireinio tanwydd ac ynni a ddefnyddir gan sefydliadau sy'n cyflwyno adroddiadau. |

| Acronymau | Diffiniad |
|---|---|
| **PNH** | Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd |
| **NTG** | Nwyon Tŷ Gwydr |
| **AaGIC** | Addysg a Gwella Iechyd Cymru |
| **Y GIG** | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| **PCGC** | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| **ICC** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **TaD** | Trosglwyddo a Dosbarthu (trydan) |
| **CFfCUNH** | Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd |
| **WTT** | Allyriadau NTG o'r Ffynhonnell i'r Tanc |

# 2 Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon yn manylu ar Gynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022 - 2024. Mae'n nodi ein camau gweithredu allweddol a'n strategaeth i gefnogi ein taith i ddod yn sefydliad Sero Net gweithredol erbyn 2030. Mae cyflawni statws Sero Net yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG) a gaiff eu gollwng i'r atmosffer a'r allyriadau NTG a gaiff eu dal drwy ddileu a/neu niwtraleiddio carbon. Er mwyn cyflawni Sero Net, bydd yn rhaid datgarboneiddio allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau, trafnidiaeth, gwasanaethau, a chaffael yn unol â Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru a Sector Cyhoeddus Cymru.**

Mae Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael ei lunio ar y cyd, gan ymgorffori adborth ac awgrymiadau a gafwyd drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr ar draws ein holl gyfarwyddiaethau. Mae ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio yn amlinellu nifer o gamau allweddol a nodir o fewn pum Ffrwd Weithgaredd i gefnogi datgarboneiddio ein gweithrediadau:

- Rheoli Carbon
- Adeiladau, Cynllunio'r Ystâd a Defnydd Tir
- Trafnidiaeth a Theithio
- Caffael
- Dulliau o Ddarparu Gofal Iechyd a Gwasanaethau yn y Dyfodol

Mae'n dra hysbys bod cysylltiad arwyddocaol rhwng effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ac iechyd a llesiant pobl. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn deall bod gennym rôl allweddol o ran cefnogi Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru gydnabod y cymorth a gawsom gan GEP Environmental Ltd er mwyn datblygu'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio hwn, hwyluso'r gweithdai trawsadrannol ac wrth goladu'r data a gasglwyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein Cynllun Gweithredu.

## 2.1 Ein Llwyddiannau

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) wedi cyflawni nifer o brosiectau dros y blynyddoedd diwethaf i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd.**

Mae'r adran Cyfleusterau ac Ystadau wedi bod yn gweithio ar draws ein hystâd i newid y goleuadau am rai LED, yn enwedig yn ein hadeiladau hŷn, a rheoli'r gwaith o osod seilwaith gwefru cerbydau trydan ar draws nifer o safleoedd i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Hyd yn hyn, mae goleuadau wedi cael eu newid mewn sawl safle, sydd wedi arwain at ostyngiadau yn ein costau ynni a'n hôl troed carbon cysylltiedig. Mae ICC hefyd wedi cael cyllid i ddisodli ein fflyd Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol gyda cherbydau trydan er mwyn lleihau ein hallyriadau NTG ymhellach. Oherwydd yr amser a gymerir i gael gafael ar gerbydau ar hyn o bryd, ni chafodd y rhain eu prynu yn 2021, fodd bynnag, mae hyn yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf ynghyd â thrawsnewid ein fflyd i gerbydau trydan a hybrid.

Mae gwaith ein Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi annog newid ymddygiad er budd iechyd a llesiant ein staff, partneriaid a'r gymuned ehangach. Drwy weithio gyda Cynnal Cymru-Sustain Wales, rydym wedi datblygu Gweithdy Amgylchedd Iach ar Offeryn Gwelliannau Cynaliadwyedd i Dimau (SIFT). Mae'r gweithdy rhithwir dwy awr hwn yn galluogi timau ac unigolion yn y gweithle i ganfod a lleihau eu heffeithiau amgylcheddol. Mae'r gweithdy a'r pecyn cymorth cyfatebol yn canolbwyntio ar dair prif thema: datgarboneiddio, bioamrywiaeth ac effeithlonrwydd o ran adnoddau (dim gwastraff), ac mae ar gael i'w rannu gyda chyrff cyhoeddus yng Nghymru yn rhad ac am ddim.

Fel 'hyrwyddwyr addysg', cafodd staff o bob rhan o GIG Cymru wahoddiad gan ICC i gymryd rhan mewn gweithdai ar-lein 'Galwad i Weithredu' yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2022. Nod y gweithdai ar-lein hyn yw helpu i nodi camau i leihau ein heffaith ar y Newid yn yr Hinsawdd er mwyn cefnogi'r broses o bontio i GIG Cymru iach, carbon isel. Rydym hefyd yn ehangu'r ddarpariaeth hyfforddiant er mwyn cynnig hyfforddiant Llythrennedd Carbon i 150 o aelodau o staff ICC Cymru yn ystod Mawrth-Ebrill 2022.

I gefnogi ein camau datgarboneiddio mewnol, rydym wedi creu rhwydwaith staff i gefnogi datblygiad cynaliadwy. Mae ein Hyrwyddwyr Gwyrdd yn darparu sesiynau anffurfiol amser cinio bob tri mis i alluogi trafodaeth, dysgu, a chamau gweithredu ar lefel tîm ac yn unigol. Rydym hefyd wedi datblygu e-ganllawiau ac adnoddau amrywiol i gefnogi staff sy'n ymgorffori ymddygiad cynaliadwy i helpu i leihau eu hallyriadau yn y gwaith, a gartref. Mae hyn yn cynnwys yr e-ganllaw 'Ni yw'r Newid, Gweithio Gartref a Gweithio'n Ystwyth mewn modd Cynaliadwy' a'r 'Her Nodau Llesiant'. Mae ICC yn cyhoeddi rhifynnau chwarterol o'n e-friff 'Cyfleoedd Gwyrdd'. Mae'r briff hwn yn cofnodi gwersi ac yn nodi'r arferion gorau i gefnogi gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy adferiad gwyrdd o COVID-19; o ystyried yr heriau a'r anghydraddoldebau y mae'r pandemig wedi'u hamlygu ymhellach.

Gan gydnabod yr effaith a gaiff gwastraff o'n gweithrediadau ar ein hôl troed amgylcheddol, mae ICC wedi ymrwymo i fod 'ddiblastig' erbyn 2023, a fydd yn cynnwys canfod dewisiadau amgen i blastig a lleihau'r defnydd o eitemau plastig untro ar draws y sefydliad. Yn ogystal, llofnododd ICC Siarter Teithio Iach Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd ym mis Ebrill 2019, sy'n golygu bod ICC yn ymrwymo i leihau teithio diangen a hyrwyddo teithio iach ar draws yr ardal.

# 2.2 Beth yw'r sefyllfa bresennol?

## 2.2.1 Argyfwng Hinsawdd a Chymru Sero Net

### Y Newid yn yr Hinsawdd - Y Cyd-destun Byd-eang

Mae angen gweithredu ar raddfa ryngwladol ar gyfer unrhyw fath o newid ystyrlon i hinsawdd y Ddaear. Nod fframwaith hinsawdd ac ynni 2030 a ddatblygwyd gan y Cenhedloedd Unedig yw lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chynyddu momentwm tuag at ddatblygu cynaliadwy a'r gallu i wrthsefyll Newid yn yr Hinsawdd drwy Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig a Chonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (CFfCUNH) Cytundeb Paris 2015.

Mae tymheredd cyfartalog byd-eang wedi codi dros 1°C ers y cyfnod cyn-ddiwydiannol, a 0.2°C o'i gymharu â 2011-2015, a rhagwelir y bydd cynnydd anochel pellach yn digwydd o ganlyniad i garbon sydd eisoes wedi'i allyrru. Mae mwy o ganlyniadau hinsoddol eisoes yn digwydd oherwydd y cynnydd hwn, gan dynnu sylw at y brys i weithredu i leihau allyriadau carbon byd-eang yn sylweddol. Os na fyddwn yn gweithredu nawr, mae'r bygythiad yr ydym yn ei wynebu yn un enbydus gan fod perygl y bydd tymheredd byd-eang yn codi uwchlaw'r pwynt di-droi-nôl gan arwain at newidiadau i'n planed na ellir eu dadwneud.

### Y Newid yn yr Hinsawdd – Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Cymru a'r DU gyfan eisoes yn gweld effeithiau hinsoddol sylweddol o ganlyniad i Newid yn yr Hinsawdd. Mae adroddiad Trydydd Asesiad Annibynnol o Risg yn sgil Newid yn yr Hinsawdd[1] y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn tynnu sylw at y ffaith bod tymheredd blynyddol cyfartalog uwch (cynnydd o 0.3°C bob degawd ers 1980), cynnydd yn lefel y môr (yr amcangyfrifir ei fod yn codi 2.5cm bob degawd ar hyn o bryd), a chynnydd sylweddol mewn tymheredd ac eithafion dyddodiad wedi effeithio ar y DU gyfan. Yr arwyddion mwyaf amlwg o hyn yw'r gaeafau mwynach/gwlypach, yr hafau cynhesach/sychach, a mwy o dywydd eithafol (e.e. llifogydd, tywydd poeth eithafol, stormydd) yn y DU.

Mae bioamrywiaeth y DU hefyd o dan fygythiad oherwydd effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.  Ledled y DU, mae gwahanol gynefinoedd ac ecosystemau mewn perygl oherwydd amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys lefelau'r môr yn codi, tywydd eithafol, a thymheredd eithafol. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 40% yn rhywogaethau brodorol y DU ac mae 25% o famaliaid mewn perygl o gael eu colli.

Mae natur hinsawdd y DU, sydd eisoes yn amrywiol iawn, yn her sylweddol i systemau iechyd a gofal cymdeithasol; nid yn unig wrth gynnal darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ond hefyd drwy feichiau ariannol ychwanegol o addasu a lliniaru effeithiau Newid yn yr Hinsawdd.

### Newid yn yr Hinsawdd – effeithiau ar iechyd a darparu gofal iechyd

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn nodi mai Newid yn yr Hinsawdd[1] yw'r bygythiad mwyaf sylweddol i iechyd y ddynoliaeth yn fyd-eang. Mae effaith tywydd eithafol mwy aml, ynghyd ag effeithiau niweidiol llygredd cynyddol ar iechyd eisoes yn arwain at ymchwydd sylweddol yn y pwysau ar ein systemau iechyd presennol ar draws y Byd.  Mae WHO yn amcangyfrif y bydd Newid yn yr Hinsawdd yn arwain at tua 250,000 o farwolaethau ychwanegol y flwyddyn yn fyd-eang o 2030 ymlaen, ac y bydd yr effaith o ran cost flynyddol uniongyrchol yn $2-4 biliwn dros y degawd nesaf[2].

O ganlyniad i Newid yn yr Hinsawdd, erbyn 2050 disgwylir y bydd tymheredd blynyddol cyfartalog Cymru yn codi 1.2°C, disgwylir i'r glawiad yn yr haf ostwng 15%, a disgwylir i'r glawiad yn y gaeaf gynyddu 6%[3]. Mae effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd ar ein poblogaeth yn debygol o amrywio o fwy o afiechydon sy'n gysylltiedig â gwres ac ansawdd aer, tarfu ar y gallu i gael gafael ar fwydydd iach, i darfu ar wasanaethau gofal iechyd oherwydd mwy o dywydd eithafol. Mae'r heriau canlynol sy'n ymwneud ag iechyd a darparu gofal iechyd yn y DU yn tynnu sylw at flaenoriaethau strategol allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw yn strategaethau cyflenwi'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol[4]:


- Tymheredd uwch sy'n arwain at gynnydd mewn marwolaethau a salwch sy'n gysylltiedig â gwres. Bydd cleifion sy'n dod i gysylltiad â thymheredd uchel mewn ysbytai, cartrefi gofal, a lleoliadau gofal yn y cartref yn dod yn fwy cyffredin wrth i'r tymheredd barhau i godi a thywydd poeth eithafol ddod yn fwy cyffredin.
- Bydd asedau iechyd a gofal cymdeithasol fel ysbytai, meddygfeydd, cartrefi gofal a lleoliadau gwasanaethau brys yn dod i gysylltiad cynyddol â llifogydd a thywydd eithafol, gan arwain at darfu ar ddarparu gofal iechyd.
- Pwysau ar y galw cynyddol yn sgil cynnydd mewn clefydau a gaiff eu cludo gan fector (o barasitiaid, firysau a bacteria) ac afiechydon oherwydd ansawdd aer a dŵr gwael o fewn ein cymunedau lleol.
- Tarfu ar gadwyni cyflenwi a fydd yn rhwystr rhag cael gafael ar fwyd iach a fforddiadwy, gan arwain at iechyd gwael a diffyg diogeledd bwyd o fewn ein cymunedau lleol.
- Mae anghydraddoldebau iechyd ac economaidd presennol yn golygu bod risgiau i iechyd yn sgil Newid yn yr Hinsawdd yn fwy tebygol o effeithio'n fawr ar gymunedau incwm is lle mae iechyd gwael eisoes yn cael ei gydnabod fel rhywbeth endemig.
- Colli bioamrywiaeth ac ecosystemau a fydd yn effeithio ar iechyd corfforol, iechyd meddyliol, a llesiant ein cymunedau lleol.

**Bydd lleihau ein hallyriadau carbon a chymryd camau gweithredu ar newid yn yr hinsawdd yn helpu i sicrhau gwelliannau uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a thegwch o ran iechyd.**

## 2.2.2 Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru

Yn 2019, daeth Llywodraeth Cymru yn un o'r gwledydd cyntaf yn y DU i ddatgan Argyfwng Hinsawdd, gan ymrwymo i sicrhau sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Cefnogodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiadau i ddatgarboneiddio drwy gyhoeddi 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel'[5] yn 2019, sy'n nodi 100 o bolisïau a chynigion i sicrhau bod yr uchelgeisiau ar gyfer allyriadau carbon 2030 yn cael eu bodloni. Mae Cymru Sero Net[6], ail gynllun lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Garbon 2 (2021 i 2025) yn gosod y sylfeini i wneud Cymru yn Sero Net erbyn 2050 a'r sector cyhoeddus yn Sero Net erbyn 2030. Mae'r cynllun yn nodi 123 o bolisïau a chynigion, ynghyd ag ymrwymiadau a chamau gweithredu o bob rhan o Gymru.

Bydd Cyngor Partneriaeth Cymru yn arwain dull 'Tîm Cymru' o ganiatáu i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys GIG Cymru gydweithio i leihau eu hallyriadau carbon. Bydd hyn yn adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes ar y gweill ledled Cymru ac yn annog dull partneriaeth o wneud y gorau posibl o adnoddau, osgoi dyblygu a sicrhau cysondeb o ran cyfathrebu.





Ffigur 1 - Dyfyniad o Ddogfen Argyfwng Hinsawdd Llywodraeth Cymru

## 2.2.3 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru)[7] yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus "gymryd camau i gynnal a gwella bioamrywiaeth" o fewn eu gweithrediadau. O dan ein cynllun 'Gwneud Lle i Natur'[8] rydym yn cydnabod bod ecosystemau yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant y cyhoedd, gan ddarparu ein bwyd a'n meddyginiaethau, rheoleiddio ein dŵr a rheoli clefydau, a chefnogi ein gweithgareddau hamdden. Mae ein hiechyd a'n llesiant yn dibynnu ar amgylchedd iach, sy'n cynnwys defnyddio ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy a chefnogi ein bioamrywiaeth.

## 2.2.4 Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[9] ('y Ddeddf') yn ymwneud â gwella pedair agwedd gydnabyddedig ar lesiant yng Nghymru, sef llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol a grynhoir yn y saith nod llesiant. Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod ein gweithredoedd datgarboneiddio yn cefnogi amcanion llesiant Llywodraeth Cymru a'r 7 nod llesiant cenedlaethol.




Ffigur 2 - Saith egwyddor llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru ymgorffori'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' ym mhopeth a wnânt a mabwysiadu'r 5 Ffordd o Weithio i feddwl mwy am yr hirdymor, cydweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, meithrin agwedd gydgysylltiedig a cheisio atal problemau.

Mae Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei ystyried yn un o'r heriau mwyaf y mae'r byd cyfan yn ei wynebu, ac mae angen arloesi a chydweithio i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.  Bydd canfod cyfleoedd a chamau i leihau allyriadau carbon yn ein gweithgareddau o ddydd i ddydd yn lleihau ein cyfraniad at Newid yn yr Hinsawdd a, thrwy hynny, yn lleihau ei ganlyniadau.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymgorffori'r pum ffordd o weithio drwy ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio:

**Hirdymor:** Mae pob ffrwd weithgaredd yn nodi camau priodol hirdymor i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu er mwyn cyflawni Sero Net, nawr ac yn y dyfodol.

**Integreiddio:** Mae'r pum ffrwd weithgaredd yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn ffurfio dull integredig o leihau ein hallyriadau carbon.

**Atal:** Rydym wedi nodi camau penodol i atal lefelau allyriadau rhag cynyddu a lleihau ein heffaith ar y newid yn yr hinsawdd i helpu i atal problemau iechyd yn y dyfodol.

**Cynnwys:** Rydym wedi datblygu ein cynllun datgarboneiddio ar y cyd gan weithio'n agos gydag arweinwyr datgarboneiddio o bob un o wyth cyfarwyddiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi ymgysylltu ag aelodau o staff o bob rhan o feysydd gwasanaeth yn yr wyth cyfarwyddiaeth.

**Cydweithio:** Ein nod yw sicrhau bod cymaint â phosibl o'r camau gweithredu a nodir yn ein cynllun datgarboneiddio yn cael eu cyflawni drwy weithio'n agos â phartneriaid, rhanddeiliaid ac eraill ledled Cymru. Byddwn yn adeiladu ar bartneriaethau cyfredol ac yn anelu at ddatblygu rhai newydd i wneud y gorau o'n hymdrechion i leihau ein hallyriadau.

### 2.2.5 Y Pandemig COVID-19

Mae'r pandemig COVID-19 wedi arwain at newid yng ngweithgareddau dyddiol llawer o bobl a gwelwyd cynnydd mewn gweithio gartref a gweithio'n ystwyth a gostyngiad mewn cymudo. Mae hyn wedi arwain at fwy o allyriadau o gartrefi preifat yn hytrach na'r swyddfa. Er bod yr allyriadau hyn wedi newid lleoliad, mae angen eu hystyried o hyd fel rhan o'n gwaith i gyflawni Sero Net.

Mae'r pandemig hefyd wedi golygu bod adnoddau a chapasiti wedi cael eu dargyfeirio oddi wrth gamau gweithredu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a lleihau allyriadau carbon. Wrth i ni weithio tuag at adferiad gwyrdd cynaliadwy, mae angen mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

### 2.2.6 Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru

Mae gan GIG Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gyflawni datgarboneiddio ar draws y Sector Cyhoeddus; tra'n cynnal gwasanaeth iechyd diogel, effeithiol ac o safon uchel. Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (2021-2030)[10] sy'n nodi mentrau a thargedau allweddol i gyflawni gostyngiad uchelgeisiol ond cyraeddadwy mewn allyriadau carbon o weithrediadau GIG Cymru, gan gynnwys:

- Adeiladau ac Ystadau
- Cludiant
- Caffael
- Ymagwedd at Ofal Iechyd

Mae'r Cynllun Cyflenwi yn nodi 46 o fentrau ar gyfer datgarboneiddio GIG Cymru.  Mae un o'r prif ymrwymiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, lunio Cynlluniau Gweithredu ar Ddatgarboneiddio, a gaiff eu

diweddaru'n rheolaidd ac ymrwymo iddynt mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig bob 2 flynedd.

| Targed Datgarboneiddio GIG Cymru | Allyriadau ($tCO_2e$) | Canran y gostyngiad o 2018/19 | Bydd arbedion cronnus o fentrau yn gyfanswm o ($tCO_2e$) |
|---|---|---|---|
| **2025** | 845,600 | -16% | 459,000 |
| **2030** | 661,500 | -34% | 1,982,500 |

**Ffigur 3 - Targedau Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru**

## 2.2.7 Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru

Fel darparwr allweddol gwasanaethau'r GIG ledled Cymru, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl bwysig i'w chwarae wrth gefnogi gweithgareddau datgarboneiddio. Byddwn yn sicrhau bod ein huchelgais ein hun yn cyd-fynd â blaenoriaethau a thargedau allweddol sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru i sicrhau ein bod yn lleihau ein hallyriadau carbon er mwyn gweithio i gyflawni allyriadau Sero Net.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio ar y cyd â'n Hymddiriedolaethau a'n Byrddau Iechyd partner yn y GIG a chyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC), i gyflawni ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio. Rydym yn cydnabod y gall Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd ddarparu rôl ymgynghorol i gefnogi'r gwaith cyflenwi ehangach a llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn y dyfodol.

## 2.2.8 Adferiad Cynaliadwy ar ôl y Pandemig

I gefnogi adferiad GIG Cymru ar ôl pandemig COVID-19, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Tasglu Adferiad Gwyrdd ac mae cyfatebiaeth glos rhwng ei amcanion a nodau cyffredinol Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi cyfleoedd newydd i gefnogi'r Adferiad Gwyrdd drwy roi ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ar waith.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal prosiect ymchwil ar wahân i ddeall yr effaith y mae'r pandemig wedi'i chael ar ein hallyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG) ar gyfer 2020-21, ac ystyried sut y gall dulliau gofal iechyd y dyfodol gefnogi ein bwriad i weithredu ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio.

Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn nodi ei bod yn 'rhaid i'r GIG weithredu'n awr i leihau ei effaith ar yr amgylchedd, chwarae ei ran, a bod yn esiampl yn y ffordd ymlaen o ran cymryd camau i leihau allyriadau'.

# 3 Ein Taith tuag at Sero Net

**Bydd ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar themâu, sy'n cyd-fynd yn agos â Chynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, gan gwmpasu pum ffrwd weithgaredd:**

- Rheoli Carbon
- Adeiladau, Cynllunio'r Ystâd a Defnydd Tir
- Trafnidiaeth a Theithio
- Caffael
- Dulliau o Ddarparu Gofal Iechyd a Gwasanaethau yn y Dyfodol

Mae pob ffrwd weithgaredd yn dangos lefel yr uchelgais, targedau, meysydd gweithredu penodol a chamau gweithredu dilynol a fydd yn ein galluogi i gyrraedd ein nodau o ran lleihau allyriadau carbon, i gefnogi ein taith tuag at fod yn sefydliad carbon Sero Net. Mae'r meysydd gweithredu ym mhob ffrwd weithgaredd yn ymgorffori'r mentrau a'r targedau perthnasol a amlinellir yng Nghynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-30.

Mae'r pum ffrwd weithgaredd yn cwmpasu amrywiaeth o gyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth, gan ganiatáu i'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio gael ei rannu'n feysydd gweithredu hylaw, y gellir eu cyflawni gan y meysydd gwasanaeth a'r cyfarwyddiaethau perthnasol, a hwyluso cydweithio ac atebolrwydd ar draws y cyfarwyddiaethau perthnasol. Datblygwyd y camau gweithredu a gynhwysir ym mhob ffrwd weithgaredd drwy waith ymgysylltu mewnol sylweddol drwy gyfres o weithdai datgarboneiddio, a oedd yn cynnwys cynrychiolaeth o holl gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Nid oes unrhyw lwybr sy'n dangos sut y byddwn yn cyrraedd Sero Net yn y cynllun 2022-24 hwn na dim targedau penodol ychwaith ar gyfer ICC. Bydd manylion y rhain yn cael eu cynnwys yn ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ar gyfer 2024-26, ar ôl i ni ymgysylltu â chyfarwyddiaethau a meysydd gwasanaeth yn fanylach a chanfod adnoddau a chapasiti i gyflawni camau penodol.

Wrth gyflawni camau gweithredu o dan y pum ffrwd weithgaredd, bydd hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o weithredu deddfwriaeth genedlaethol allweddol yn ymwneud â chynaliadwyedd o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Deddf yr Amgylchedd (Cymru), Cymru Iachach a'r Ddeddf Teithio Llesol (Cymru).

| Ffrydiau Gweithgaredd | Cyd-destun |
|---|---|
| Rheoli Carbon | Dull o reoli carbon ar draws gweithrediadau Iechyd Cyhoeddus Cymru a chefnogi Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd partner i gymryd camau i fesur, rheoli a lleihau allyriadau o weithrediadau a darparu gwasanaethau. Mae'n cynnwys cyfathrebu rhagweithiol parhaus ar gynnydd ein camau gwethredu ar ddatgarboneiddio ein hunain a rhai GIG Cymru. |
| Adeiladau, Cynllunio'r Ystâd a Defnydd Tir | Lleihau a dileu allyriadau o'n portffolio eiddo presennol drwy weithredu gofynion carbon Sero Net ar gyfer prosiectau adeiladu newydd a phrosiectau adnewyddu mawr. Gwella ein dull o gynllunio ystadau'n strategol a defnyddio ein hadeiladau. Datblygu ein dull o gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn ein hystadau. |
| Trafnidiaeth a theithio | Lleihau a dileu allyriadau ein fflyd cerbydau a chefnogi ein staff i ddefnyddio opsiynau teithio cynaliadwy wrth deithio ar fusnes a chymudo. Cefnogi staff i ddefnyddio teithio llesol i leihau allyriadau NTG a gwella iechyd a llesiant. |
| Caffael | Gwelliannau i gyfrifo carbon i helpu i ganfod mannau dwys o ran allyriadau NTG yn ein cadwyn gyflenwi a llywio rhaglen ymgysylltu â chyflenwyr i leihau allyriadau (datgarboneiddio) ein cadwyn gyflenwi. |
| Dulliau o Ddarparu Gofal Iechyd a Gwasanaethau | Addasu ein dull o ddarparu gwasanaethau er mwyn cynnal darpariaeth gofal iechyd effeithiol a chynaliadwy o ansawdd uchel sy'n cyd-fynd ag ymrwymiadau GIG Cymru:<br>• Dull o weithio'n ystwyth neu ein dull 'gweithio fel mae'n gweithio orau'<br>• Dull o ddarparu addysg ar yr hinsawdd a datgarboneiddio<br>• Dull o leihau allyriadau carbon o wastraff<br>• Dull o leihau allyriadau drwy atal afiechyd |

Tabl 1 - Rhestr o ffrydiau gweithgaredd ar gyfer gweithredoedd a restrir o fewn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio hwn

## 3.1 Allyriadau NTG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019-20

Cafodd ôl troed allyriadau NTG Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gyfrifo ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019-20 yn unol â gofynion adrodd a nodwyd gan GIG Cymru. Pennwyd bod allyriadau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y cyfnod hwn yn **12,568,999 cilogram o $CO_2$e**. Dyma fydd ein llinell sylfaen ac fe'i defnyddir i lywio'r broses o osod targedau a gweithredu fel meincnod i fonitro cynnydd ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio.

Bydd y dull o ddatgarboneiddio ein ffynonellau allyriadau yn amrywio yn seiliedig ar y lefel o reolaeth uniongyrchol a pherchnogaeth pob ffynhonnell allyriadau NTG. Mae ein Llinell Sylfaen Allyriadau NTG yn cynnwys y ffynonellau canlynol o allyriadau NTG:

**Cwmpas 1**: Allyriadau NTG o weithrediadau a gaiff eu rheoli'n uniongyrchol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gan gynnwys: llosgi tanwydd (e.e. nwy naturiol mewn boeleri), defnydd o danwydd yn ein cerbydau fflyd, ac allyriadau sy'n ffoi o oergelloedd, a nwyon eraill a ddefnyddir ar draws ein gweithrediadau.


**Cwmpas 2:** Allyriadau NTG o gynhyrchu trydan grid wedi'i brynu a ddefnyddir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar draws ein safleoedd.

**Cwmpas 3:** Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgil gweithrediadau ehangach Iechyd Cyhoeddus Cymru gan gynnwys teithio busnes, caffael, defnydd o ddŵr, a gwaredu gwastraff a chaffael nwyddau a gwasanaethau.

**Tabl 2 (yn gyntaf) a Ffigur 4 (yn ail) - Allyriadau NTG llinell sylfaen Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn adrodd 2019-20 wedi'u rhannu yn ôl ffynhonnell allyriadau.**

| Cwmpas Adrodd | Ffynhonnell Allyriadau NTG | Allyriadau NTG 2019-20 ($kgCO_2e$) | Canran yr Allyriadau NTG (%) |
|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 | Tanwydd (Olew Nwy a Nwy Naturiol) | 227,907 | 1.8% |
| | Cerbydau Teithwyr | 77,770 | 0.6% |
| | Cerbydau Danfon | 14,337 | 0.1% |
| | Oergelloedd ac Arall | 7,308 | 0.06% |
| Cwmpas 2 | Trydan Grid | 106,828 | 0.9% |
| Cwmpas 3 | Teithio ar Fusnes | 441,834 | 3.5% |
| | Allyriadau NTG O'r Ffynhonnell i'r Tanc[1] | 196,715 | 1.6% |
| | Caffael | 11,458,708 | 91.2% |
| | Trydan Grid (TaD) | 25,310 | 0.2% |
| | Dŵr | 6,581 | 0.05% |
| | Gwaredu Gwastraff | 5,700 | 0.05% |
| **Cyfanswm Allyriadau NTG ($kgCO_2e$)** | | **12,586,999** | **-** |

**Allyriadau NTG Iechyd Cyhoeddus Cymru BA 2019-20**
(% wedi'i rhannu yn ôl ffynhonnell allyriadau)




Mae ein hôl troed allyriadau NTG yn cynnwys ffynonellau allyriadau NTG uniongyrchol ac anuniongyrchol. Bydd y dull o ddatgarboneiddio'r ffynonellau allyriadau hyn yn wahanol ar sail y lefel o reolaeth uniongyrchol a'r berchnogaeth sydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dros bob ffynhonnell allyriadau NTG.

1 Allyriadau NTG o brosesu a mireinio tanwyddau ac ynni a ddefnyddir gan ICC. Rhaniad rhwng ffynonellau safle a thrafnidiaeth.

## 3.2 Allyriadau NTG Uniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019-20


Mae ein hallyriadau NTG uniongyrchol yn cynrychioli'r ffynonellau hynny y mae gan ICC y mwyaf o reolaeth drostynt, a'r rhai lle y cawn yr effaith fwyaf o ran lleihau ein hallyriadau NTG. Ôl troed allyriadau NTG uniongyrchol ICC ar gyfer 2019/20 yw **1,110,291 cilogram o $CO_2$e** ac mae'n cynnwys y ffynonellau allyriadau canlynol:

- Defnyddio cyfleustodau ar draws ein safleoedd (nwy naturiol, trydan, tanwyddau eraill, dŵr),
- Gweithredu fflyd cerbydau ICC,
- Teithio ar fusnes,
- Gwaredu a thrin gwastraff,
- Allyriadau NTG O'r Ffynhonnell i'r Tanc

Tabl 3 (yn gyntaf) a Ffigur 5 (yn ail) - Allyriadau NTG uniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn adrodd 2019-20 wedi'u rhannu yn ôl ffynhonnell allyriadau.

| Cwmpas Adrodd | Ffynhonnell Allyriadau NTG | Allyriadau NTG 2019-20 ($kgCO_2e$) | Canran o Allyriadau NTG Uniongyrchol (%) |
|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 | Tanwydd (Olew Nwy a Nwy Naturiol) | 227,907 | 20.5% |
| | Cerbydau Teithwyr | 77,770 | 7.0% |
| | Cerbydau Danfon | 14,337 | 1.3% |
| | Oergelloedd ac Arall | 7,308 | 0.7% |
| Cwmpas 2 | Trydan Grid | 106,828 | 9.6% |
| Cwmpas 3 | Teithio ar Fusnes | 441,834 | 39.8% |
| | Allyriadau NTG o'r Ffynhonnell i'r Tanc | 196,715 | 17.7% |
| | Trydan Grid (TaD) | 25,310 | 2.3% |
| | Dŵr | 6,581 | 0.6% |
| | Gwaredu Gwastraff | 5,700 | 0.5% |
| **Cyfanswm Allyriadau NTG ($kgCO_2e$)** | | **1,110,291** | **-** |


Allyriadau NTG Uniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru BA 2019-20
(% wedi'i rhannu yn ôl ffynhonnell allyriadau)



## 3.3 Allyriadau Anuniongyrchol NTG Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019-20

Mae ein hallyriadau NTG anuniongyrchol yn cynrychioli'r ffynonellau hynny y gall ICC ddylanwadu arnynt i helpu i leihau ein hôl troed allyriadau NTG. Ôl troed allyriadau NTG anuniongyrchol ICC ar gyfer ein blwyddyn waelodlin 2019/20 yw **11,458,708 cilogram o $CO_2$e.**

Mae ein hôl troed allyriadau NTG anuniongyrchol yn cynnwys allyriadau NTG o Gaffael nwyddau a gwasanaethau. Er mwyn dangos graddfa gymharol ein hôl troed allyriadau NTG uniongyrchol ac anuniongyrchol, darperir cymhariaeth yn y siart isod.




**Ffigur 6 - Cymhariaeth o allyriadau NTG uniongyrchol ac anuniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn adrodd 2019-20.**

# 4 Ffrwd Weithgaredd 1 - Rheoli Carbon

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymrwymo i gyflwyno prosesau arfer gorau ar gyfer rheoli carbon, sy'n ffurfio sylfaen gadarn er mwyn gallu rhoi ein Cynllun Gweithredu ar waith yn llwyddiannus. Mae arfer gorau o ran rheoli carbon yn mynd y tu hwnt i fonitro ac adrodd ar ein hallyriadau NTG i gynnwys datblygu cynlluniau gweithredu datgarboneiddio a'u rhoi ar waith, gosod targedau, a chefnogi newid ymddygiadol mewn perthynas â datgarboneiddio.**

**Mae GIG Cymru yn tynnu sylw at bwysigrwydd ymrwymo adnoddau o fewn Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i sicrhau arfer gorau o ran rheoli carbon a datblygu ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio. Rydym yn cydnabod bod angen newid penodol o fewn prosesau rheoli i roi mwy o bwyslais ar ddatgarboneiddio ar draws ein gweithrediadau; wedi'i hwyluso gan broses rheoli carbon integredig rhwng ein cyfarwyddiaethau mewnol.**

## 4.1 Adolygu ein Cynllun Gweithredu

Yn unol â chyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan Gynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, byddwn yn adolygu ein Cynllun Gweithredu ddwywaith y flwyddyn i sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio. Ar ôl cwblhau pob adolygiad byddwn yn cyflwyno adroddiadau cynnydd i GIG Cymru a fydd yn sail i ddiweddariadau yn y dyfodol ar gyfer Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru.

## 4.2 Cyfathrebu Rhagweithiol

Mae'r rôl y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei chwarae o ran darparu gwasanaethau'r GIG ledled Cymru, yn rhoi'r cyfle i ni weithio'n agos gyda'n Byrddau Iechyd partner, Ymddiriedolaethau'r GIG, ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i gefnogi agenda datgarboneiddio yn ogystal â hyrwyddo Strategaeth Datgarboneiddio GIG Cymru i'r cyhoedd yn gyffredinol. Caiff hyn ei ystyried yn elfen bwysig yn ein proses rheoli carbon yn ogystal â chefnogi dull GIG Cymru o ddarparu gofal iechyd i'n cymunedau lleol yn y dyfodol.

Bydd angen gweithlu sydd wedi gwella'u sgiliau i lywio'r camau gweithredu a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio hwn a'u rhoi ar waith. Bydd angen eu cefnogi i ddysgu, arloesi ac ymgorffori camau i leihau carbon mewn gweithgareddau bob dydd.

## 4.3 Camau Gweithredu Allweddol:

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli** | Rhoi arferion gorau o ran rheoli carbon ar waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio | Parhau i gyfrifo ein hôl troed allyriadau NTG a dilyn canllawiau adrodd Carbon Sero Net presennol GIG Cymru a Sector Cyhoeddus Cymru.<br><br>Canfod bylchau mewn data a dyrannu adnoddau i ddal a dadansoddi data coll | Ystadau/ Cyfleusterau<br><br>Meysydd Gwasanaeth Unigol | Parhaus<br><br>2023 | **2022** |
| | | Defnyddio ein hôl troed allyriadau NTG blynyddol i nodi blaenoriaethau o ran lleihau allyriadau ac i lywio'r gwaith o ddatblygu cerrig milltir dros dro yn unol â thargedau Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. | Meysydd Gwasanaeth Unigol | Parhaus | **2022** |
| **Rheoli** | Rhoi arferion gorau o ran rheoli carbon ar waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio | Gweithredu proses adolygu ddwywaith y flwyddyn ar gyfer ein Cynllun Gweithredu ac ar gyfer cyflwyno adroddiadau cynnydd ategol i GIG Cymru. | Ystadau/ Cyfleusterau – gweithio gyda Phob Maes Gwasanaeth | 2022 - Parhaus | **2022** |
| | | Adolygu a diweddaru'r holl bolisïau perthnasol cyfredol i ymgorffori datblygu cynaliadwy, i gefnogi a sefydlu polisïau lleihau carbon, er mwyn sicrhau bod dylanwadu amgylcheddol yn flaenoriaeth strategol i Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn helpu'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio. Mae'r Polisïau Perthnasol yn cynnwys: Teithio, Caffael, Dyfeisiau Meddygol, DSE, Hyfforddiant Statudol a Gorfodol, Cefnogi Dysgu a Datblygu, Llywodraethu Gwybodaeth, Amgylcheddol, Rheoli Gwastraff, Rheoli Dŵr, Ceir Prydles, Fframwaith Gwneud Penderfyniadau.<br><br>Cynnal sesiwn gynllunio gydag Arweinwyr Polisi i gefnogi'r camau uchod – adolygu a diweddaru'r holl bolisïau perthnasol presennol | Deiliaid Polisi Perthnasol ar gyfer pob polisi<br><br>Arweinwyr Polisi | 2024 (i'w gadarnhau) | **2022** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoli** | Rhoi arferion gorau o ran rheoli carbon ar waith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio | Sefydlu Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio i gydlynu'r gwaith o gyflwyno'r cynllun, gyda chynrychiolaeth o'r Bwrdd / Tîm Gweithredol a chynrychiolaeth o bob cyfarwyddiaeth. Bydd y grŵp yn rhoi adroddiad i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.<br><br>Datblygu Cylch Gorchwyl y Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio | Arweinydd Datgarboneiddio y Tîm Gweithredol | 2022 | **2022** |
| | | Ymgorffori ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig. Pennu cyfres o ddyddiadau adolygu i fonitro cynnydd o ran rhoi'r cynllun ar waith. | Arweinydd Datgarboneiddio y Tîm Gweithredol | 2022 | **2022** |
| **Rheoli** | Rhoi arferion gorau o ran rheoli carbon ar waith yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio. | Rhoi rhaglen ymchwil ar waith yn ymwneud â'r ffordd y mae sefydliadau Iechyd Cyhoeddus eraill yn mynd i'r afael â datgarboneiddio eu gweithrediadau eu hunain a chefnogi'r broses o ddatgarboneiddio cyrff iechyd cenedlaethol, er mwyn cadw golwg ar arloesedd a chanllawiau o ran arferion gorau. **Goblygiadau Ariannol** | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | Parhaus | **2022** |
| | | Canfod cyrff a fforymau ymchwil perthnasol yn y diwydiant (e.e., Fforwm Amgylchedd Iechyd Cymru) y gall ICC gyfrannu atynt i gefnogi datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus. | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | Parhaus | **Parhaus** |
| | | Adolygu a diweddaru canllawiau cynllunio digwyddiadau cyfredol i gynnwys gofynion penodol i wneud y rhain mor gynaliadwy â phosibl. | Ystadau a Chyfleusterau<br><br>Pob Maes Gwasanaeth | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â Staff a Hyfforddiant i Staff** | Hwyluso ymgysylltu â staff o ran rheoli carbon a Chynllun Gweithredu Datgarboneiddio ICC. | Datblygu sianeli cyfathrebu rheolaidd i hysbysu'r staff am gamau lleihau carbon a newid yn yr hinsawdd | Cyfathrebu | 2022 – Parhaus (i'w gadarnhau) | **-** |
| | | Gweithredu amrywiaeth o raglenni ymgysylltu â staff sy'n ymwneud â'n Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio, gan gynnwys:<br>• Rhaglenni ymgysylltu 'gwyrdd' mewnol<br>• Cynnwys mentrau cynaliadwy o fewn cynlluniau gwaith timau<br>• Negeseuon ar arferion gorau drwy wasanaeth e-fwletin ICC<br>• Ymgysylltu â staff ICC sydd â diddordeb mewn prosiectau lleihau carbon i gymryd rhan mewn astudiaethau achos, podlediadau i'w rhannu â staff eraill<br>• Datblygu llenyddiaeth ac adnoddau ategol i dynnu sylw at gamau gweithredu bob dydd y gellir eu gwneud i leihau allyriadau NTG<br>• Cyflwyno Gweithdy Amgylchedd Iach SIFT i bob maes gwasanaeth o fewn 8 cyfarwyddiaeth ICC. Ein nod yw i 20% o'n timau gymryd rhan yn y gweithdy hwn bob blwyddyn dros y pum mlynedd nesaf. | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | 2022 – 2028 | **Parhaus** |
| **Ymgysylltu â Staff a Hyfforddiant i Staff** | Hwyluso ymgysylltu â staff o ran rheoli carbon a Chynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ICC. | Darparu data i lywio ein hôl troed allyriadau, y gall yr holl staff gael gafael arnynt yn hawdd. Bydd y ddolen i'r Data Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad cyfredol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:<br>• Ôl troed allyriadau NTG blynyddol ICC a chynnydd yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol<br>• Manylion mentrau parhaus i reoli carbon a datgarboneiddio | Ystadau/ Cyfleusterau | 2022 – Parhaus | **2022** |
| **Ymgysylltu â Staff a Hyfforddiant i Staff** | Hwyluso ymgysylltu â staff o ran rheoli carbon a Chynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ICC. | Datblygu Tudalen Fewnrwyd ICC ar Ddatgarboneiddio fel rhan o dudalennau mewnol yr Hwb ar gyfer staff. Cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ar fewnrwyd a gwefan gyhoeddus ICC | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd<br><br>Cyfathrebu | 2022 – Parhaus (i'w gadarnhau) | **2022** |


# 5 Ffrwd Weithgaredd 2 - Adeiladau, Cynllunio'r Ystâd a Defnydd Tir

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithredu ei wasanaethau ledled Cymru. Oherwydd yr amrywiaeth o wasanaethau rydym yn eu darparu ar gyfer ein cymunedau lleol, rydym yn gweithredu o amrywiaeth o wahanol adeiladau gan gynnwys clinigau, labordai, a swyddfeydd mewn ysbytai a lleoliadau gofal iechyd mwy o faint, a chaiff y mwyafrif ohonynt eu prydlesu gan Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau partner o fewn GIG Cymru.**

Roedd allyriadau'n deillio o weithrediadau safleoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfateb i **264,771 kg$CO_2$e (23.8% o gyfanswm ein hallyriadau)** yn ein blwyddyn adrodd 2019/20, gan gynnwys allyriadau sy'n deillio o ddefnyddio cyfleustodau (trydan, nwy naturiol, tanwyddau ar y safle, defnyddio dŵr, cynhyrchu gwastraff, ac allyriadau ffo). Y ffynhonnell fwyaf arwyddocaol o allyriadau NTG o'n gweithgareddau ar y safle yw'r defnydd o drydan a nwy. Mae'r rhan fwyaf o'n defnydd o nwy yn codi o wresogi ein clinigau a'n swyddfeydd yn Capital Quarter.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod lleihau allyriadau NTG gweithredol o'n safleoedd yn cynnwys nid yn unig arloesi technegol ond hefyd cynllunio'r ystâd yn effeithiol i sicrhau ein bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl.

**Allyriadau NTG Iechyd Cyhoeddus Cymru BA 2019-20**
(% wedi'i rhannu yn ôl ffynhonnell allyriadau)




Ffigur 7 - Allyriadau ynni, gwastraff, dŵr, a chyfleusterau oeri yn deillio o adeiladau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 5.1 Adeiladau

Er mwyn symud ein gweledigaeth Carbon Sero Net yn ei blaen, rydym yn canolbwyntio ar ein gweithgareddau ynni, dŵr a gwastraff ar draws ein gweithrediadau; yn benodol sut y gallwn symud tuag at dechnolegau gwyrddach a glanach sy'n lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (NTG), heb beryglu'r modd y caiff ein gwasanaethau eu darparu. Fel darparwr gwasanaethau sgrinio a phatholeg GIG Cymru, mae ein cyfleusterau wedi'u cydleoli o fewn ysbytai a chlinigau mwy. Mae hyn yn golygu ein bod yn ddibynnol ar ymgysylltu â Byrddau Iechyd i weithredu mesurau datgarboneiddio ar draws eu hystâd. Ein rôl ar gyfer y safleoedd hyn fydd gweithio gyda pherchnogion eiddo i'w hannog i ddefnyddio technolegau a mentrau carbon isel i helpu i ddatblygu ein huchelgais Sero Net a chefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Datgarboneiddio Strategol GIG Cymru.

Rydym wedi nodi sawl cam i leihau allyriadau NTG sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ynni, gwastraff a dŵr ein hadeiladau. Mae'r camau hyn yn canolbwyntio ar fentrau i wella'r defnydd gweithredol o adeiladau yn ogystal ag annog Ymddiriedolaethau a Byrddau Iechyd partner i wella eu hadeiladau presennol. Bydd rhai camau hefyd yn cefnogi newid ymddygiad staff i helpu i leihau allyriadau. Penderfynwyd ar gamau datgarboneiddio yn ystod cyfres o weithdai gydag aelodau o staff ar draws amrywiaeth o adrannau. Rydym wedi cysylltu ein camau gweithredu ar ddatgarboneiddio â'r rhai sydd wedi'u rhestru yng Nghynllun Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru. Gan ein bod yn prydlesu'r mwyafrif helaeth o'n hadeiladau, rydym wedi rhannu ein camau gweithredu ar ddatgarboneiddio rhwng adeiladau sy'n eiddo i ni a rhai sydd ar brydles.

## 5.2 Camau Gweithredu Allweddol:

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnydd o Adeiladau (Adeiladau sy'n Eiddo i Ni)** | Cynnal asesiad datgarboneiddio i nodi technolegau a mentrau datgarboneiddio ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i ni | Cynnal arfarniad i bennu ble mae ein hadeiladau mwyaf aneffeithlon ar draws yr ystâd a datblygu cynllun i fynd i'r afael â hyn.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | 2022 | **2022** |
| | | Datblygu cynllun lleihau carbon sy'n nodi camau gweithredu a thechnolegau datgarboneiddio addas i leihau allyriadau ar gyfer ynni, gwastraff a dŵr a defnyddio adnoddau i leihau allyriadau NTG. | Ystadau/ Cyfleusterau | 2022-2024 | **2022** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Defnydd o Adeiladau (Adeiladau sy'n Eiddo i Ni)** | Cynnal asesiad datgarboneiddio i nodi technolegau a mentrau datgarboneiddio ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i ni | Datblygu Cynllun Gweithredu lleihau carbon i'w ddefnyddio gan feysydd gwasanaeth mewnol perthnasol (h.y., rheoli cyfleusterau, Caffael ac ati) i roi camau gweithredu ar waith a lleihau allyriadau. | Ystadau/ Cyfleusterau<br><br>Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth Mewnol | 2024 (i'w gadarnhau) | **2023** |
| **Ynni (Adeiladau sy'n Eiddo i Ni ac ar Brydles)** | Gwneud y defnydd gorau o wres mewn adeiladau sy'n eiddo i ni ac adeiladau ar brydles | Ymchwilio i'r potensial i leihau gofynion gwresogi adeiladau sy'n eiddo i ni ac ar brydles drwy ddefnyddio mesurau fel:<br>• Gwell rheolaethau gwresogi,<br>• Creu parthau i resymoli'r defnydd o wres mewn ardaloedd defnydd isel.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | 2024 | **2023** |
| **Ynni (Adeiladau sydd ar Brydles)** | Ymgysylltu â landlordiaid, gan gynnwys Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau eraill, i gydweithio ar eu rhaglen ddatgarboneiddio bresennol | Ymgysylltu â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i ddeall eu rhaglen ddatgarboneiddio bresennol a'u cynorthwyo i ganfod rhagor o gamau gweithredu partneriaeth i leihau carbon lle y bo'n ymarferol. | Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 -2024 | **2022** |
| | | Gweithio gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i godi ymwybyddiaeth staff o'u strategaethau datgarboneiddio perthnasol. | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | Parhaus | **2022 – Parhaus** |
| **Gwastraff (Pob safle)** | Gwella prosesau rheoli gwastraff o fewn arferion presennol | Ymgysylltu'n uniongyrchol â staff ar draws pob adran i roi cyfeiriad cliriach o ran rheoli gwastraff.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau<br><br>Cyfathrebu | 2022 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Adolygu arwyddion gwahanu gwastraff er mwyn sicrhau bod pob ffrwd wastraff yn cael ei gwahanu'n effeithiol.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | 2022 | **2022** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwastraff (Pob safle)** | Gwella prosesau rheoli gwastraff o fewn arferion presennol | Cynnal adolygiad o'r dulliau cyfredol o waredu gwastraff i benderfynu a ellir defnyddio dulliau mwy ffafriol (h.y., ailgylchu yn lle safleoedd tirlenwi) lle y bo'n ymarferol. **Goblygiadau Ariannol** | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Sicrhau bod pob safle ICC yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion ailgylchu gwastraff ar draws Cymru ac yn cyrraedd targedau ailgylchu cenedlaethol. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | Parhaus (i'w gadarnhau) | **Parhaus** |
| | | Pob cyfarwyddiaeth i ailgylchu neu ailddefnyddio eitemau (h.y., dodrefn) i leihau gwastraff. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | Parhaus (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Adolygu contractwyr gwastraff cyfredol i bennu cymwysterau gwyrdd, dulliau gwaredu, a lefel argaeledd data. | Cyfleusterau / Caffael | 2022 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| **Ymgysylltu â staff** | Datblygu rhaglen ymwybyddiaeth i staff mewn perthynas ag ynni, gwastraff, a defnyddio dŵr | Ymgorffori manylion am feysydd lle y gwneir defnydd sylweddol o ynni ac adnoddau ym mhob math o adeiladau a mentrau i'w lleihau (diffodd goleuadau, egwyddorion economi gylchol etc.) o fewn rhaglen Hyfforddiant Llythrennedd Carbon. **Goblygiadau Ariannol** | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | 2022 - Parhaus (i'w gadarnhau) | **2022 – ymlaen** |
| | | Datblygu a gweithredu cyfres o weithgareddau ymgysylltu ynni ac adnoddau ar gyfer aelodau staff (e.e., Ymgyrchoedd Diffodd) o fewn ICC. **Goblygiadau Ariannol** | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | 2023 – Parhaus (i'w gadarnhau) | **2023** |
| | | Penodi hyrwyddwyr gwyrdd (wedi'u hymgorffori o fewn rolau gwaith pobl), ym mhob maes gwasanaeth, yn y gweithlu i ddarparu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â mentrau datgarboneiddio ar draws pob lefel staffio. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |

## 5.3 Cynllunio'r Ystâd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn prydlesu'r rhan fwyaf o'i safleoedd gan Fyrddau Iechyd eraill ac Ymddiriedolaethau'r GIG, ac felly mae'r gallu i newid neu addasu'r adeiladau yr ydym yn eu meddiannu yn gyfyngedig. Fodd bynnag, gallwn barhau i gymryd camau i leihau ein hallyriadau drwy reoli'r ystâd yn well, gan wneud y defnydd gorau o'n hystâd i sicrhau bod y mannau yr ydym yn eu prydlesu yn cyd-fynd â'n hanghenion nawr ac yn y dyfodol. Mae seilwaith gwefru cerbydau trydan eisoes wedi'i osod ar draws nifer o safleoedd i gefnogi darparu gwasanaethau yn y dyfodol a'r newid i fflyd cerbydau trydan/hybrid yn y flwyddyn ariannol 2022.

Mae cyfle hefyd i weithio mewn partneriaeth â landlordiaid. Er enghraifft, byddai trefniadau prydles ar gyfer rhai safleoedd yn weithredol am gyfnod hirach nag oes effeithiol technoleg adnewyddadwy a osodwyd. Bydd gofynion carbon isel yn parhau i gael eu hystyried (yn enwedig o ran ynni ac effeithlonrwydd dŵr) gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o fewn unrhyw waith adeiladu/caffaeliadau newydd a wneir yn y dyfodol. Bydd pob adeilad/caffaeliad newydd i'n hystâd yn cael ei asesu i sicrhau bod eu gofynion mynediad yn briodol i fanteisio'n llawn ar y potensial ar gyfer teithio cyhoeddus ac opsiynau teithio llesol lle y bo'n ymarferol.

## 5.4 Camau Gweithredu Allweddol:

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Ystâd Bresennol** | Adolygu sut rydym yn defnyddio ein hystâd bresennol sy'n eiddo i ni ac sydd ar brydles | Cynnal asesiad o'r defnydd o'r ystâd i benderfynu a yw'r ardaloedd sy'n eiddo i ni ac ar brydles yn cael eu defnyddio'n llawn – gan gysylltu â'r peilot 'Gweithio Fel Mae'n Gweithio Orau' presennol | Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 | **Parhaus** |
| | | Adolygu trefniadau prydlesu a pherchnogaeth cyfredol o fewn adeiladau a gaiff eu tanddefnyddio i resymoli'r ystâd, pan fydd y brydles yn dod i ben. | Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 | **Parhaus** |
| | | Archwilio cyfleoedd i rannu lle o fewn ein hystâd gyda'r sector cyhoeddus ehangach, drwy greu Hybiau. | Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 | **2023** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Yr Ystâd Bresennol** | Adolygu ein gofynion gofod o ran adeiladau sy'n eiddo i ni ac ar brydles | Asesu newidiadau y gallai fod eu hangen i Amgylcheddau Gwaith i gefnogi ffyrdd newydd o wethio ar draws yr ystâd yn unol â'r cynllun peilot 'Gweithio Fel Mae'n Gweithio Orau' | Datblygu Sefydliadol a Phobl Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 | **2023** |
| | | Parhau i ymchwilio i'r defnydd o hybiau gweithio lleol yn hytrach na mannau gweithio mewn swyddfeydd mwy ar gyfer cyfleusterau/gwasanaethau penodol er mwyn lleihau'r defnydd o ynni ac adnoddau a chymudo. | Ystadau a Chyfleusterau | 2023 | **2022** |
| | | Adolygu galluoedd i ehangu'r defnydd o ddesg boeth ar draws ein safleoedd i leihau cymudo staff, fel rhan o'r cynllun peilot 'Gweithio Fel Mae'n Gweithio Orau' | Datblygu Sefydliadol a Phobl Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 | **2022** |
| **Cynllunio'r Ystâd ar gyfer y Dyfodol** | Cynllunio'r ystâd i'r dyfodol ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i ni | Gydag unrhyw adeiladau newydd/pryniannau newydd, parhau i sicrhau bod gofynion carbon isel yn cael eu hystyried - yn enwedig o ran effeithlonrwydd ynni a dŵr a chysylltiadau trafnidiaeth. **Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | Parhaus | **Parhaus** |
| | Cynllunio'r ystâd i'r dyfodol ar gyfer adeiladau ar brydles | Fel rhan o gynllunio'r dyfodol rhoi ystyriaeth ddyledus i a fyddai'n fwy effeithiol bod yn berchen ar adeiladau (yn hytrach na phrydlesu) er mwyn effeithio'n uniongyrchol ar ddwyster carbon (mae angen bod yn gyson hefyd â chynlluniau gwariant cyfalaf hirdymor, gan gysylltu â Llywodraeth Cymru). | Ystadau/ Cyfleusterau | Parhaus | **Parhaus** |
| | | Datblygu meini prawf rhagsgrinio ar gyfer pob prydles newydd i sicrhau bod gofod swyddfa yn cydweddu â gwerthoedd datgarboneiddio ICC (h.y., blaenoriaethu defnyddio technolegau carbon isel). | Ystadau/ Cyfleusterau | Parhaus | **Parhaus** |
| | Sefydlu meini prawf gwyrdd ar gyfer pob adeilad newydd a gwaith adnewyddu mawr | Nodi cyfres o feini prawf ar gyfer adeiladau newydd a gwaith adnewyddu er mwyn gwella perfformiad amgylcheddol a charbon adeiladau'r dyfodol. | Ystadau/ Cyfleusterau | Parhaus | **Parhaus** |

## 5.5 Defnydd Tir


Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn berchen ar unrhyw dir, nac yn rheoli unrhyw dir. Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Iechyd eraill ac Ymddiriedolaethau'r GIG i gefnogi arferion rheoli tir sy'n bodoli eisoes neu arferion rheoli tir yn y dyfodol sy'n gwella'r broses o storio carbon (potensial atafaelu carbon) y tir yr ydym yn ei feddiannu. Rydym wedi nodi'r camau gweithredu canlynol i gefnogi'r gwaith o wella mannau gwyrdd sy'n eiddo i'n Byrddau Iechyd partner ac Ymddiriedolaethau'r GIG i leihau allyriadau NTG a hyrwyddo bioamrywiaeth.

## 5.6 Camau Gweithredu Allweddol:

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| Mannau gwyrdd | Safleoedd ar brydles | Dim camau gweithredu ar gyfer 2022-24 | | | |

# 6 Ffrwd Weithgaredd 3 - Trafnidiaeth a Theithio

**Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn berchen ar, ac yn gweithredu, 40 o gerbydau. Mae ein fflyd yn cynnwys faniau sgrinio symudol, ceir cwmni a cheir a rennir a gaiff eu defnyddio i gefnogi darpariaeth gwasanaethau'r GIG ledled Cymru. Cwblhaodd ein fflyd dros 348,000 o filltiroedd yn ystod ein blwyddyn adrodd 2019/20 ac mae'n un o effeithiau amgylcheddol mwyaf sylweddol ein gwasanaethau.**




Ffigur 8 – Allyriadau NTG trafnidiaeth a theithio o fewn ôl troed allyriadau NTG uniongyrchol Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn ogystal ag effaith uniongyrchol ein trafnidiaeth, mae teithio ar fusnes a wneir gan weithwyr sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain (Fflyd Lwyd) a thrafnidiaeth gyhoeddus yn cynrychioli blaenoriaeth allweddol arall o ran lleihau allyriadau NTG. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod y rôl bwysig sydd i'w chwarae wrth ddatgarboneiddio'i fflydoedd cerbydau yn ogystal â chefnogi ein gweithwyr i wneud dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. Yng Nghymru, amcangyfrifir bod baich yr amlygiad i lygredd aer hirdymor yn cyfateb i rhwng 1,000 a 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn; gan effeithio'n anghymesur ar y tlotaf yn ein cymunedau lleol[11]. Bydd lleihau allyriadau mwg cerbydau o'n fflyd yn helpu i leihau ein hallyriadau NTG, a bydd hefyd yn cyfrannu at wella ansawdd aer o fewn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Cyfanswm allyriadau NTG yn sgil gweithgareddau trafnidiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd **845,520 cilogram o $CO_2$e (76.2% o gyfanswm allyriadau NTG)** ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20. Mae hyn yn cynnwys allyriadau o weithredu ein fflyd cerbydau, a gweithgareddau ehangach teithio ar fusnes. Mae mwyafrif (52.3%) ein hallyriadau trafnidiaeth yn deillio o'r teithio a wneir gan ein Fflyd Lwyd. Yn wahanol i'n fflyd ein hunain lle y gallwn ymyrryd yn uniongyrchol i leihau allyriadau, mae lleihau allyriadau o'n Fflyd Lwyd yn galw ar Iechyd Cyhoeddus Cymru i gefnogi ein staff i fabwysiadu dulliau trafnidiaeth cynaliadwy a darparu cymhellion i helpu'r broses o drosglwyddo i gerbydau trydan/hybrid.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydnabod bod argaeledd y seilwaith i gefnogi'r gwaith o weithredu cerbydau trydan yn gyfan gwbl yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Yn y tymor byr bydd hyn yn her o ran cefnogi ein gweithrediadau mewn ardaloedd anghysbell yng Nghymru. Mae cyfle hefyd i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer cerbydau hydrogen, yn enwedig ar gyfer cerbydau mwy. Gyda hyn mewn golwg rydym yn cydnabod y gallai fod yn rhaid i ni barhau i ychwanegu at ein fflyd gyda cherbydau batri-hybrid neu betrol/diesel hynod effeithlon er mwyn sicrhau bod lefelau'r gwasanaeth yn cael eu cynnal yn y tymor byr.

# 6.1 Camau Gweithredu Allweddol


| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cludiant sy'n Eiddo i Ni** | Newid y fflydoedd cerbydau sy'n eiddo i ni i gerbydau trydan/ hybrid | Datblygu strategaeth i gefnogi'r newid i gerbydau trydan a hybrid o fewn gweithrediadau ICC. | Pob Cyfarwyddiaeth – cyfrifoldeb unigol | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Adolygu'r ddarpariaeth bresennol o seilwaith gwefru ar draws safleoedd ICC ac ymgysylltu â Byrddau Iechyd eraill i gynyddu'r ddarpariaeth seilwaith gwefru cerbydau trydan yn unol â Chanllawiau Arfer Gorau PCGC. **Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | 2023 | **2023** |
| | | Caffael cerbydau batri-trydan (lle y bo'n ymarferol bosibl) a/neu gerbydau allyriadau isel iawn (hybrid) drwy PCGC ar gyfer prydlesi sy'n dod i ben ar ôl mis Ebrill 2022 o fewn ein fflydoedd cerbydau sy'n eiddo i ni. Ymchwilio i gyfleoedd i gyflwyno cerbydau allyriadau isel iawn (ULEV) (Hydrogen, Cerbydau Trydan etc.) ar gyfer cerbydau mwy y fflyd. **Goblygiadau Ariannol** | Pob Cyfarwyddiaeth – cyfrifoldeb unigol<br><br>Caffael<br>Cyllid | 2022 – parhaus (i'w gadarnhau) | **2022 / 2025** |
| **Teithiau Busnes a Chymudo** | Cefnogi staff i ddatgarboneiddio teithiau busnes a chymudo | Cynnal adolygiad i asesu'r gofynion teithio presennol ar fusnes a sut y mae'r rhain yn debygol o newid wrth weithredu trefniadau gweithio ystwyth i aelodau o staff. | Cyllid | 2022 | **2022** |
| | | Diweddaru Polisïau ICC o ran teithio a hawlio treuliau i ymgorffori hierarchaeth teithio cynaliadwy yn seiliedig ar ganlyniadau adolygiad gorffenedig; gosod trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol fel opsiynau dewisol. | Deiliaid Polisi Perthnasol | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Gwerthuso a gweithredu strwythurau/mentrau ariannol i annog staff i ddefnyddio opsiynau teithio cynaliadwy **Goblygiadau Ariannol** | Cyllid<br><br>Pobl a Datblygu Sefydliadol | 2024 | **2023** |
| | | Adolygu sut y gellir gweithredu cynlluniau aberthu cyflog neu eu gwella er mwyn annog staff i fanteisio ar gerbydau trydan a/neu hybrid. | Pobl a Datblygu Sefydliadol / PCGC | 2023 | **2023** |
| **Teithiau Busnes a Chymudo** | Cefnogi staff i ddatgarboneiddio teithiau busnes a chymudo | Hyrwyddo cynllun Ceir Gwyrdd y GIG i annog pobl i fanteisio ar gerbydau ULEV a sicrhau bod y seilwaith gwefru ar waith i gefnogi hyn. | Datblygu Sefydliadol a Phobl / PCGC<br>Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | 2022 (i'w gadarnhau) | **2023** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teithiau Busnes a Chymudo** | Cefnogi staff i ddatgarboneiddio eu teithiau busnes a chymudo. | Ystyried cyfleoedd i ddefnyddio clybiau ceir lleol a mentrau rhannu ceir i leihau teithiau busnes yn eu cerbydau eu hunain. | Pob Maes Gwasanaeth – Cyfrifoldeb unigol | 2024 (i'w gadarnhau) | **2023** |
| | | Ymgysylltu'n barhaus ag aelodau o staff i hyrwyddo opsiynau teithio cynaliadwy a llesol (lle y bo'n ymarferol bosibl) ar gyfer cymudo ac ar gyfer teithiau busnes gan gynnwys:<br>• Ymgyrchoedd a gefnogir yn fewnol i hybu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a chynlluniau rhannu ceir<br>• Gweithdai mewnol a hyfforddiant ar fanteision datgarboneiddio teithio a thrafnidiaeth (o ran allyriadau NTG ac i iechyd).<br>**Goblygiadau Ariannol** | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | 2023 - parhaus | **2023** |
| **Teithio Llesol** | Annog defnyddio opsiynau Teithio Llesol | Cwblhau gwerthusiad ar draws ICC (sefydliad cyfan) i ddeall lefel bresennol y cyfleusterau a'r polisi mewnol sydd ar gael i gefnogi opsiynau teithio llesol, megis:<br>• Darparu cawodydd, cyfleusterau newid a storio (e.e., rhesel feiciau) ar draws safleoedd ICC<br>• Darpariaeth bresennol trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Hyblygrwydd amseroedd shifftiau i gyd-fynd ag amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Mecanweithiau cymorth sydd ar gael i gymell teithio llesol o fewn ICC. | Cyfleusterau<br><br>Pob Cyfarwyddiaeth | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Datblygu cynllun cymhelliant i weithwyr sy'n defnyddio opsiynau trafnidiaeth llesol. Treialu cymhellion a nodir er mwyn mesur nifer y staff sy'n manteisio ar y cynllun a'i ddichonoldeb yn yr hirdymor, gyda'r bwriad o'i gyflwyno i'r holl staff os bydd y cynllun yn llwyddiant.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Cyllid | 2024 | **2023** |
| | | Cyflawni Ymrwymiadau Siarter Teithio Iach Caerdydd i hyrwyddo manteision opsiynau teithio llesol yn ein sefydliad ein hunain.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | 2023 | **2023** |

# 7 Ffrwd Weithgaredd 4 - Caffael

**Caffael nwyddau a gwasanaethau drwy Wasanaethau Caffael PCGC yw effaith amgylcheddol anuniongyrchol fwyaf Iechyd Cyhoeddus Cymru ond mae hefyd yn gyfle i gefnogi datgarboneiddio traws-sector ar draws ein cadwyn gyflenwi. Roedd cyfanswm allyriadau NTG yn sgil gweithgareddau caffael Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 11,458,708 cilogram CO2e (91.2% o'n hôl troed allyriadau NTG uniongyrchol ac anuniongyrchol).**

Yn gyntaf, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd ati i ddatblygu meincnod dangosol o'n hallyriadau caffael gyda'r bwriad o ddefnyddio hyn i lywio strategaeth ymgysylltu â'n cyflenwyr. Dros y 2 flynedd nesaf, bydd hyn yn caniatáu i Iechyd Cyhoeddus Cymru benderfynu ar y lefel rheoli carbon sydd eisoes yn bodoli o fewn ein cadwyn gyflenwi a datblygu cyfres o ymyriadau gweithredol i leihau ein hallyriadau NTG yn y maes hwn.




**Ffigur 9 – Rhaniad o gyfanswm allyriadau NTG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 19-20 sy'n amlygu allyriadau NTG sy'n gysylltiedig â chaffael.**

Bydd ICC hefyd yn ceisio deall sut y mae ein hymddygiad presennol ynghylch caffael yn cyfrannu at ein hallyriadau NTG a bydd yn nodi camau gweithredu i wella cynaliadwyedd y nwyddau yr ydym yn eu caffael. Mae lleihau'r eitemau hyrwyddo sy'n cynnwys plastig untro yr ydym yn eu caffael (yn unol â'n haddewid i fod yn ddiblastig erbyn 2023) ac adolygu'r gofyniad i gael copïau caled o gyhoeddiadau, yn ddim ond dwy enghraifft o sut y gallwn geisio lleihau ein hallyriadau NTG.

## 7.1 Camau Gweithredu Allweddol:

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caffael** | Ymyriadau Gweithredol | Datblygu a chyhoeddi Cod Ymarfer Caffael Cynaliadwy i'n cynorthwyo i ryngweithio â'n cyflenwyr gan ystyried yr elfennau allweddol canlynol:<br>• Gweithredu asesiadau risg cynaliadwy<br>• Methodoleg ar gyfer penderfynu a dilysu camau cynaliadwy gan gyflenwyr<br>• Ymgorffori gofynion rheoli carbon o fewn tendrau ICC<br>• Defnyddio cyflenwyr lleol cymeradwy yn y lle cyntaf<br>• Strategaethau datgarboneiddio ein cyflenwyr presennol/ newydd<br>• Sut i fesur/asesu effaith dewisiadau caffael cynaliadwy.<br>• Manteisio ar opsiynau ailgylchu cyflenwyr/effeithlonrwydd ynni offer ac ati.<br>• Cyfleoedd caffael mawr ar y cyd | Caffael | 2023 (i'w gadarnhau) | **2023** |
| | | Cynnal dadansoddiad o allyriadau NTG o ddata caffael cyfredol a nodi blaenoriaethau lleihau allyriadau a llywio gwaith ymgysylltu cychwynnol â chyflenwyr yn ein cadwyn gyflenwi. | Caffael | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| **Caffael** | Ymyriadau Gweithredol | Datblygu a gweithredu rhaglen ymgysylltu â chyflenwyr drwy gydol y broses gaffael ac wrth gyflenwi i annog a chefnogi datgarboneiddio eu gweithrediadau'n barhaus. | Caffael | 2023 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Adolygu'r prosesau cyfredol ar gyfer adolygu cyflenwyr a chontractwyr o fewn ein gweithgareddau caffael. Diweddaru ein proses bresennol i sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniad bwriadol i ddewis sefydliadau mwy ecogyfeillgar. | Caffael | 2023 (i'w gadarnhau) | **2023** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Caffael** | Ymyriadau Gweithredol | Cynnal adolygiad i bennu lle y gellir defnyddio cynhyrchion mwy cynaliadwy, lle y bo'n ymarferol, yn y labordai a gwasanaethau symudol (gwasanaethau sgrinio); dewis cwmnïau sy'n defnyddio deunydd pecynnu allanol bioddiraddadwy yn hytrach na phlastig.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Microbioleg<br><br>Is-adran Sgrinio | 2026 | **2023** |
| **Caffael** | Ymwybyddiaeth o'r Gadwyn Gyflenwi | Datblygu a gweithredu ymgyrch ymwybyddiaeth er mwyn ymgysylltu â'r holl gyflenwyr ynghylch eu rôl i gefnogi datgarboneiddio gweithrediadau Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Caffael<br>Cyfathrebu | 2024 (i'w gadarnhau) | **2024** |
| | | Cynnal ymarfer ymgysylltu mewnol â gwahanol dimau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn deall sut y mae gweithgareddau caffael yn cyd-fynd â'n Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | 2022 – Parhaus (i'w gadarnhau) | **O 2022 ymlaen** |
| **Caffael** | Ymgysylltu â'r Gadwyn Gyflenwi | Adolygu strategaethau datgarboneiddio ein cyflenwyr allweddol er mwyn deall lefel rheoli a monitro carbon sy'n bodoli o fewn ein cadwyn gyflenwi ar hyn o bryd. | Caffael<br>Pob Maes Gwasanaeth - cyfrifoldeb unigol | 2024 (i'w gadarnhau) | **2023** |
| | | Ymgymryd â datblygu safon benodol i gyflenwyr sy'n cynnwys ystyriaethau monitro carbon a gweithgareddau rheoli ehangach. Ymgysylltu â chyflenwyr ynghylch sut y dylid llunio'r safon hon. | Caffael | 2024 (i'w gadarnhau) | **2023** |
| | | Diweddaru gofynion tendro cyfredol i roi mwy o bwyslais ar reoli carbon a datgarboneiddio ar gyfer darpar gyflenwyr. | Caffael | 2024 (i'w gadarnhau) | **2023** |

# 8 Ffrwd Weithgaredd 5 - Dulliau o Ddarparu Gofal Iechyd a Gwasanaethau

**Mae'n dra hysbys bod cysylltiad arwyddocaol rhwng effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ac iechyd a llesiant pobl. Mae effeithiau ar iechyd a llesiant sy'n deillio o Newid yn yr Hinsawdd yn eang; gan effeithio ar lesiant corfforol, meddyliol, ac ariannol y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae enghreifftiau o effeithiau yr ydym eisoes yn eu gweld yng Nghymru yn cynnwys:**

- Mwy o risg o anaf a marwolaeth yn sgil cyfnodau o dywydd eithafol (e.e., tywydd poeth eithriadol, stormydd, llifogydd)
- Mwy o achosion o gyflyrau iechyd cronig oherwydd ansawdd aer gwael,
- Amharu ar y gallu i gael gafael ar wasanaeth iechyd, gofal cymdeithasol, a gwasanaethau cymorth oherwydd tywydd eithafol,
- Straen ariannol ar ddarparwyr gwasanaethau oherwydd cynnydd yn y galw.

Mae anghydraddoldebau presennol o ran yr economi ac iechyd yn golygu bod risgiau i iechyd a llesiant yn debygol o effeithio'n anghymesur ar y rhai sydd ar incwm is. Mae angen i'n dulliau darparu gofal iechyd a gwasanaethau yn y dyfodol ystyried yr effeithiau hyn a sicrhau y gallwn barhau i wasanaethu ein cymunedau lleol yn effeithiol. Mae gennym rôl bwysig wrth gefnogi Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru, ond rydym hefyd yn cydnabod yr effeithiau cadarnhaol hanfodol a gaiff gwella gwasanaethau gofal iechyd ar iechyd a llesiant ein poblogaethau lleol.

Bydd cefnogi iechyd y boblogaeth yn rhagweithiol i atal salwch ac afiechyd yn cael effaith gadarnhaol enfawr ar ddatgarboneiddio, er enghraifft, drwy leihau yr ynni, bwyd a deunyddiau crai sydd eu hangen wrth ofalu am gleifion.

## 8.1 Addysg

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn cydweithrediad ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ran bwysig i'w chwarae wrth gyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf a'r ymchwil arfer gorau ar ddatgarboneiddio i'n staff, ein myfyrwyr a'n cleifion ledled Cymru. Fel hyrwyddwyr addysg, byddwn yn parhau i gefnogi uchelgais GIG Cymru i ymgorffori datgarboneiddio o fewn prosesau gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd y gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol, ac wrth gyfathrebu â'r cyhoedd.

## 8.2 Gweithio'n Ddoethach

Mae GIG Cymru yn nodi bod yn rhaid i'r model darpariaeth gofal iechyd esblygu, gan symud gofal o leoliadau ysbytai ac yn agosach at gartrefi cleifion. Mae esblygiad y model hwn i'w gyflawni drwy gynyddu lefel y gofal iechyd mewn hybiau cymunedol lleol, gwaith monitro cleifion yn ddigidol, a thrwy atal. Cafodd Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG eu gorfodi yn ystod pandemig COVID-19 i wneud trefniadau ar gyfer gweithio'n ystwyth o

fewn eu gweithrediadau ac ystyried sut y gellir darparu ar gyfer y dull hwn yn y dyfodol.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi ei staff i bontio i ddulliau newydd doethach o weithio drwy ddiweddaru ein prosesau gweithredol. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid allanol (Byrddau Iechyd eraill ac Ymddiriedolaethau'r GIG) i nodi cyfleoedd i rannu a defnyddio gofod swyddfa er mwyn lleihau gofynion teithio. Bydd ICC hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn offer TG addas ar gyfer gweithwyr cartref, er mwyn cefnogi'r newid i weithio'n ddoethach. Mae ICC hefyd yn cydnabod bod rhai meysydd yn gweithredu 24/7 ac yn ei gwneud yn ofynnol i staff fod ar y safle i redeg gwasanaethau gan fod angen offer arbenigol a PPE arnynt i gyd, gan olygu na all pob maes gwasanaeth elwa o drefniadau gweithio gartref a gweithio'n ystwyth.

Wrth symud ymlaen, byddwn hefyd yn parhau i adolygu'r rôl y gall technolegau monitro digidol a thechnolegau gofal iechyd ei chwarae yn y broses o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, i gefnogi uchelgais datgarboneiddio GIG Cymru.

## 8.3 Gofal Sylfaenol

Mae'r Is-adran Gofal Sylfaenol o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi gofal sylfaenol i ddod yn fwy cynaliadwy drwy Gynllun Fframwaith a Dyfarnu Gofal Sylfaenol Gwyrddach Cymru a gafodd ei lansio ym mis Mehefin 2022. Datblygwyd y cynllun fel pecyn cymorth ymarferol i gefnogi contractwyr gofal sylfaenol annibynnol (practis meddygon teulu, optometreg gymunedol, fferylliaeth gymunedol a phractis deintyddol gofal sylfaenol) i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu hymarfer o ddydd i ddydd ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

## 8.4 Lleihau Gwastraff

Caiff y mater o leihau gwastraff a gynhyrchir wrth ddarparu gwasanaethau gofal iechyd ei nodi fel blaenoriaeth allweddol i GIG Cymru. Ar hyn o bryd mae mwy na hanner y gwastraff gofal iechyd a gynhyrchir gan GIG Cymru yn cael ei ailgylchu, sy'n pwysleisio'r cynnydd sylweddol sydd eisoes yn digwydd yn y maes hwn; fodd bynnag mae angen cymryd camau pellach i gefnogi datgarboneiddio.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn deall bod ganddo rôl bwysig i'w chwarae o ran lleihau gwastraff, yn sgil ein gweithrediadau ein hunain, a hefyd wrth gefnogi Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i leihau eu gwastraff eu hunain. Rydym wedi nodi nifer o wahanol gamau sy'n canolbwyntio ar ein gweithrediadau ein hunain a'r dylanwad y gallwn ei gael ar y GIG yn ehangach.

# 8.5 Camau Gweithredu Allweddol

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithio'n Ddoethach** | Modelau gweithio hyblyg | Cynnal astudiaeth drwy ein menter "Gweithio Fel Mae'n Gweithio Orau", i bennu cyfran y gweithlu a allai weithio o bell neu ar sail hybrid yn rheolaidd. | Pobl a Datblygu Sefydliadol | 2023 | **2022** |
| | | Parhau i fuddsoddi mewn offer TG ac offer swyddfa addas ar gyfer gweithwyr o bell a gweithwyr hybrid i annog manteisio ar hyn.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau a Chyfleusterau<br>TG | 2022 -2023 | **2022** |
| | | Gweithio gyda Thîm Cynllunio'r Ystâd i adolygu'r ddarpariaeth bresennol o ganolfannau cymunedol lleol y gellir eu defnyddio i ddarparu ein gwasanaethau sgrinio a chlinigau. | Ystadau/ Cyfleusterau<br>Is-adran Sgrinio<br>Microbioleg | 2023 | **Parhaus** |
| **Gweithio'n Ddoethach** | Rhesymoli gweithio ar y safle a gwneud y gorau ohono | Sefydlu system fonitro ac archebu i staff ei defnyddio i archebu lleoedd o fewn amgylcheddau swyddfa. | Ystadau/ Cyfleusterau | 2022 | **2022** |
| | | Adolygu gweithrediadau cyfredol i nodi lle y gellir newid gweithdrefnau a phrosesau neu eu hoptimeiddio er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | 2023 (i'w gadarnhau) | **2023** |
| **Gweithio'n Doethach** | Digidoleiddio | Cwblhau adolygiad o'r dull presennol o ddarparu ein gwasanaethau i ganfod adrannau ICC a allai elwa'n sylweddol ar ddigidoleiddio. Adolygu'r agweddau cadarnhaol a negyddol sydd wedi deillio o ddigidoleiddio | Microbioleg<br><br>Is-adran Sgrinio<br><br>Meysydd gwasanaeth unigol | Parhaus (i'w gadarnhau) | **Parhaus** |
| | | Cwblhau adolygiad mewnol i ganfod maes lle y gellir lleihau'r defnydd o bapur drwy ddigidoleiddio. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol<br><br>TG | Parhaus (i'w gadarnhau) | **Parhaus** |

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlenni ICC | Amserlen CCS Datgarboneiddio GIG Cymru |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleihau Gwastraff** | Lleihau gwastraff a gynhyrchir yn sgil ein gweithrediadau a chefnogi GIG Cymru i leihau gwastraff. | Nodi dulliau newydd o ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau a manteisio arnynt (ac ymgorffori egwyddorion yr economi gylchol) a all fod o fudd i Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol<br><br>Ystadau/ Cyfleusterau | 2022 (i'w gadarnhau) | **2022** |
| | | Adolygu cyfleoedd i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol y gellir eu hailddefnyddio o fewn ein gweithrediadau yn lle eitemau untro a chyfnewid eitemau lle y bo'n berthnasol.<br><br>Adolygu cyfleoedd i ddefnyddio cyfarpar y gellir eu hailddefnyddio o fewn ein gweithrediadau yn lle eitemau untro a newid eitemau lle y bo'n berthnasol<br>**Goblygiadau Ariannol** | Microbioleg<br><br>Gwasanaethau Sgrinio | O 2023 ymlaen | **O 2022 ymlaen** |
| | | Cefnogi GIG Cymru i leihau gwastraff gymaint â phosibl drwy ymgysylltu parhaus â Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG, a'r cyhoedd. | Ystadau/ Cyfleusterau | Parhaus | **O 2022 ymlaen** |
| **Addysg** | Cefnogi uchelgais GIG Cymru i ymgorffori datgarboneiddio mewn prosesau gwneud penderfyniadau o ddydd-i-ddydd y gwasanaeth iechyd, sefydliadau addysgol, a chyfathrebu â'r cyhoedd. | Datblygu adnoddau ar y cyd ag AaGIC i gefnogi cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i leihau allyriadau NTG gan dynnu sylw at fanteision cysylltiedig gwella iechyd ein cymunedau lleol.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | Parhaus | **Parhaus** |
| | | Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff, i gefnogi newid ymddygiad a gwelliannau i'r amgylchedd cartref er mwyn lleihau allyriadau fel unigolion | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth Unigol | Parhaus (i'w gadarnhau) | **Parhaus** |

# 9 Cyfrifoldebau a Llywodraethu

**Mae'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio yn ddogfen fyw a fydd yn ymateb i newidiadau a dylanwadau mewnol ac allanol.**

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sefydlu Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflawni. Caiff y grŵp ei arwain gan y Cyfarwyddwr Gweithredol sy'n gyfrifol am Gynaliadwyedd Amgylcheddol a bydd cynrychiolaeth o bob Cyfarwyddiaeth ar y grŵp hwn. Bydd y grŵp yn cysylltu â phob cyfarwyddiaeth/maes gwasanaeth i sicrhau bod pob cyfle yn cael ei ddefnyddio i leihau allyriadau carbon. Bydd Cylch Gorchwyl yn cael ei ddatblygu ar gyfer y grŵp, a chynnydd yn cael ei adrodd i'r Tîm Gweithredol.

Bydd cynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth/cyfarwyddiaeth yn monitro ac yn rhoi adroddiad ar y cynnydd tuag at gamau perthnasol, i'r Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio bob tri mis.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu adroddiad cynnydd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, gan ddechrau ym mis Mawrth 2023.

## Y Camau Nesaf:

- Sefydlu Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio a datblygu cylch gorchwyl.
- Cadarnhau proses adrodd gyda'r Tîm Gweithredol ac amserlennu eitem ar yr agenda ar gyfer diweddariadau rheolaidd.
- Sefydlu proses adrodd fewnol gyda chynrychiolwyr o feysydd gwasanaeth/arweinwyr gweithredu gan ddarparu diweddariad ar gamau gweithredu i'r Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio bob tri mis.

# 10 Ariannu

**Mae'n hanfodol bod carbon isel yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau y tu allan i gwmpas arferol y prosiect datgarboneiddio, gan gynnwys dylanwadu ar gadwyni cyflenwi. Yn ogystal â hynny, mae'n rhaid i gyllidebau cyfalaf a gwariant gyd-fynd â'r agenda datgarboneiddio. Bydd cyflawni Sero Net yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru graffu ar ei holl weithgareddau a chymryd camau priodol lle bo angen. Bydd hyn yn gofyn am ffordd wahanol o feddwl gyda mwy o bwyslais ar ystyriaethau amgylcheddol.**

Bydd yn heriol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ganfod adnoddau i fwrw ymlaen â'r newidiadau angenrheidiol er mwyn cyrraedd y nod o leihau allyriadau i gyrraedd Sero Net. Bydd angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru ystyried y goblygiadau ariannol yn sgil cyflawni gofynion agenda datgarboneiddio'r GIG.

Mae angen i ni hefyd archwilio'r holl ffynonellau cyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni camau i ysgogi newid cadarnhaol. Bydd angen buddsoddiad sylweddol er mwyn cyflawni'r camau gweithredu a lleihau allyriadau, er mwyn cyrraedd y targedau lleihau erbyn 2030.

Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn cydnabod bod cael adnoddau a chyllid ychwanegol yn hollbwysig i sicrhau llwyddiant y Cynllun Cyflenwi. Fodd bynnag, gellir gwneud llawer o gynnydd drwy hyrwyddo datgarboneiddio o fewn y broses o wneud penderfyniadau, a thrwy integreiddio hyn mewn ymddygiad ar draws GIG Cymru.

Mae Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru hefyd yn datgan, '*Fel rhan o broses ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Gweithredu, bydd y Bwrdd Rhaglen Newid Hinsawdd a Datgarboneiddio a Llywodraeth Cymru yn deall yr effeithiau cyfalaf a refeniw ar gyfer sefydliadau GIG Cymru. Bydd hyn yn caniatáu dull strategol ar gyfer penderfyniadau buddsoddi. Rhaid i'r daith ddechrau ar unwaith, ac i gefnogi hyn mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £16m cychwynnol o gyfalaf datgarboneiddio i gefnogi gweithredu'r fenter yn 2021/22.*'

# 11 Risgiau

| Risg | Camau Lliniaru |
|---|---|
| **Digon o gapasiti ar draws ICC ac o fewn meysydd gwasanaeth unigol i gyflawni'r camau a nodir yn y Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio.** | • Ystyried cyfleoedd i gysoni rolau a phrosesau i gydlynu gweithgareddau, manteisio ar ymdrechion a hyrwyddo cyflawniadau<br>• Ymgorffori'r camau mewn trefniadau llywodraethu presennol<br>• Nodi arweinwyr gweithredu allweddol presennol mewn meysydd gwasanaeth ar draws ICC |
| **Dim digon o ddealltwriaeth o'r goblygiadau ariannol i gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio.** | • Egluro goblygiadau ariannol yn ystod 2022-23; bydd angen i ICC ymrwymo adnoddau a gwneud penderfyniadau dyraniad ariannol drwy'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) ar gyfer 2022/23 a'r blynyddoedd dilynol<br>• Integreiddio camau gweithredu i'r CTCI a Chynlluniau Cyfarwyddiaethau/Meysydd Gwasanaeth Unigol<br>• Manteisio ar gyfleoedd cyllid allanol i gyflawni camau gweithredu, gan gynnwys Rhaglen Cyllido Cymru, Buddsoddi i Arbed a chyllid Llywodraeth Cymru<br>• Canfod cyfleoedd ar gyfer prosiectau partneriaeth gyda Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd eraill er mwyn cefnogi cyfleoedd cyllido<br>• Defnyddio cyfleoedd i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau eraill sydd ar gael gan gynnwys Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon |
| **Angen cymorth gan bartneriaid eraill i gyflawni camau gweithredu'r Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio.** | • Canfod cyfleoedd ar gyfer prosiectau partneriaeth gyda Byrddau/Ymddiriedolaethau Iechyd eraill |
| **Cyflawni nifer fawr o gamau gweithredu yn ystod y flwyddyn gyntaf.** | • Bydd angen sefydlu ffyrdd newydd o weithio er mwyn sicrhau'r capasiti i gyflawni camau gweithredu<br>• Integreiddio camau gweithredu i'r CTCI a chanfod cyllideb i gefnogi eu cyflawni |
| **Rheoli ehangder a chwmpas trawsbynciol y Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio er mwyn sicrhau cyfatebiaeth o ran adnoddau a chapasiti.** | Sefydlu proses adrodd fewnol<br>• Arweinwyr Gweithredu i roi adroddiad i'r Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio bob tri mis.<br>• Y Grŵp Strategol ar Gyflawni Datgarboneiddio i gwrdd bob tri mis i roi adroddiad ar gynnydd.<br>• Y Grŵp Strategol ar Ddatgarboneiddio i roi adroddiad i'r Tîm Gweithredol. |

# 12 Ystyriaethau ar gyfer y Dyfodol – Camau Gweithredu Hirdymor

Mae'r camau canlynol yn deillio o ddatblygu ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio 2022-2024 a Chynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru 2021-2030. Bydd angen iddynt gael eu hystyried ar gyfer ein Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio 2024-2026. Bydd rhai o'r camau a nodir isod yn dilyn camau a nodir yn y cynllun hwn, a bydd angen cynllun hirdymor yn barod i'w gyflenwi fel rhan o'n Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ar gyfer 2024-26.

## 12.1 Ffrwd Weithgaredd 1 – Camau Gweithredu ar Reoli Carbon yn y Dyfodol

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC |
|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â Staff a Hyfforddiant i Staff** | Hwyluso ymgysylltu â staff o ran rheoli carbon a Chynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ICC. | Darparu hyfforddiant Llythrennedd Carbon i holl staff ICC.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Meysydd Gwasanaeth Unigol | **2030** |
| | | Datblygu modiwl hyfforddi ar-lein yn y rhaglen hyfforddi Cofnod Staff Electronig i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:<br>• Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru<br>• Cynllun Gweithredu ar Ddatgarboneiddio ICC<br>• Effeithlonrwydd ynni<br>• Dewisiadau teithio cynaliadwy a llesol<br>• Hierarchaeth gwastraff a lleihau gwastraff yn ein gweithrediadau<br>• Allyriadau NTG trefniadau gweithio'n ystwyth a gweithio gartref<br>• Camau gweithredu y gall unigolion eu cymryd i leihau eu hallyriadau carbon ac effaith amgylcheddol<br>**Goblygiadau Ariannol** | Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd | **2025** |

## 12.2 Ffrwd Weithgaredd 2 – Adeiladau, Cynllunio'r Ystâd a Defnydd Tir

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC |
|---|---|---|---|---|
| **Defnyddio Adeiladau (Adeiladau sy'n Eiddo i Ni)** | Cynnal asesiad datgarboneiddio i ganfod technolegau a mentrau datgarboneiddio ar gyfer adeiladau sy'n eiddo i ni | Canfod goblygiadau ariannol pob technoleg ddatgarboneiddio arfaethedig i lywio gweithgareddau buddsoddi ac ariannu. | Ystadau/ Cyfleusterau | **2024-2028** |
| | Ehangu capasiti i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a'i ddefnyddio ar y safle | Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio technolegau adnewyddadwy (e.e., Solar Ffotofoltäig) yn unol â chynllunio ein hystâd gan ystyried y canlynol:<br>• Caniatâd cynllunio presennol<br>• Achos busnes dros weithredu ynni adnewyddadwy<br>• Gosod technoleg adnewyddadwy lle y bo'n ymarferol<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | **2024-2027** |
| **Gwastraff (Pob safle)** | Gwella prosesau rheoli gwastraff mewn arferion presennol | Adolygu prosesau cyfredol y gweithle i benderfynu ar ddulliau i leihau gwastraff ar draws yr holl weithrediadau lle bo hynny'n ymarferol ac ymgorffori'r economi gylchol. | Pob Cyfarwyddiaeth/ Maes Gwasanaeth – cyfrifoldeb unigol | **2025** |
| | | Adolygu'r defnydd o blastig untro a disodli â dewisiadau amgen cynaliadwy lle y bo'n ymarferol ar gyfer meysydd gwasanaeth unigol mewn lleoliadau nad ydynt yn glinigol, yn unol ag ymrwymiad ICC i fod yn ddiblastig erbyn 2023.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Pob Cyfarwyddiaeth / Maes Gwasanaeth - cyfrifoldeb unigol | **2026** |
| **Mannau Gwyrdd** | Safleoedd ar brydles | Gweithio gyda'n partneriaid allanol (Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG) i wella mannau gwyrdd ac ailddatblygu mannau a gaiff eu tanddefnyddio o fewn safleoedd ar brydles.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Ystadau/ Cyfleusterau | **2025** |
| | Safleoedd ar brydles | Cefnogi mentrau lleol i gynnal a hyrwyddo'r defnydd o fannau gwyrdd o fewn safleoedd ar brydles ac yn yr ardal leol. | Ystadau/ Cyfleusterau | **2025** |
| | | Ymchwilio i gyfleoedd ehangach ar gyfer cynlluniau niwtraleiddio carbon sydd o fudd i'r amgylchedd a chymunedau lleol (e.e., rhaglenni plannu coed). | Ystadau/ Cyfleusterau | **2025** |

## 12.3 Ffrwd Weithgaredd 3 – Trafnidiaeth a Theithio

| Maes Gweithgaredd | Camau Gweithredu Allweddol | Is-gamau Gweithredu | Cyfrifoldeb | Amserlen ICC |
|---|---|---|---|---|
| **Teithio ar Fusnes a Chymudo** | Cefnogi staff i ddatgarboneiddio teithio ar fusnes a chymudo. | Adolygu'r ddarpariaeth bresennol i wefru cerbydau trydan ar gyfer cerbydau staff ac ymgysylltu â pherchnogion safleoedd i gynyddu'r seilwaith ddarpariaeth.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Pob Maes Gwasanaeth – Cyfrifoldeb unigol<br><br>Cyfleusterau | **2024-2028** |
| | | Adolygu'r ddarpariaeth bresennol i wefru beiciau trydan ar gyfer staff ac ymgysylltu â pherchnogion safleoedd i gynyddu'r ddarpariaeth.<br>**Goblygiadau Ariannol** | Pob Maes Gwasanaeth – Cyfrifoldeb unigol<br><br>Cyfleusterau | **2024-2028** |
| **Teithio Llesol** | Annog defnyddio opsiynau Teithio Llesol | Ehangu ymrwymiadau Siarter Teithio Iach Caerdydd i ICC gyfan, i gynnwys yr holl safleoedd ledled Cymru.<br>**Goblygiadau Ariannol** | | **2026** |

# DIWEDD Y CYNLLUN GWEITHREDU

# 13 Atodiad 1 - Cyfeiriadau

**Cyfeirir at y ffynonellau canllaw a gwybodaeth bellach a ganlyn o fewn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio hwn:**


1. Pwyllgor Newid Hinsawdd (Mehefin 2021) 'Independent Assessment of UK Climate Risk' (Trydydd Asesiad Risg Newid Hinsawdd) (https://www.theccc.org.uk/publication/independent-assessment-of-uk-climate-risk/)

2. Sefydliad Iechyd y Byd (2022) 'Climate Change' (https://www.who.int/health-topics/climate-change#tab=tab_1)

3. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2022) 'Ffeithluniau Newid yn yr Hinsawdd' (https://icc.gig.cymru/newyddion1/adnodd-newydd-yn-tynnu-sylw-at-effeithiau-newid-yn-yr-hinsawdd/)

4. Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (Mehefin 2021) 'Independent Asseessment of UK Climate Risk - Sector Briefings' (Iechyd a Gofal Cymdeithasol) (https://www.ukclimaterisk.org/independent-assessment-ccra3/briefings/)

5. Llywodraeth Cymru (2019) 'Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel' (https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/cynllun-cyflawni-carbon-isel-cy_0.pdf (llyw.cymru)

6. Llywodraeth Cymru (2021), Cymru Sero Net (Cymru Sero Net | LLYW.CYMRU)

7. Llywodraeth Cymru (2016) 'Trosolwg o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016' (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/deddf-yr-amgylchedd-cymru-2016-trosolwg.pdf (llyw.cymru))

8. Iechyd Cyhoeddus Cymru (2018) 'Gwneud Lle i Natur: Cynllun Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo cadernid ecosystemau' (https://icc.gig.cymru/pynciau/iechyd-a-chynaliadwyedd/dogfenni-iechyd-a-chynaliadwyedd/gwneud-lle-i-natur/)

9. Llywodraeth Cymru (2015) 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015' (https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2017/01/wfg-essentials-guide-cy.pdf (llyw.cymru))

10. GIG Cymru a'r Ymddiriedolaeth Garbon (Mawrth 2021) 'Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio' (Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru (llyw.cymru))

11. Iechyd Cyhoeddus Cymru (Chwefror 2020) 'Air Pollution and Health in Wales' (https://phw.nhs.wales/services-and-teams/environmental-public-health/air-quality/air-pollution-and-health-fact-sheet/)


## DIWEDD ATODIADAU'R CYNLLUN GWEITHREDU

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Ffôn: 029 2022 7744
Ebost: general.enquiries@wales.nhs.uk